2022 Camau Recriwtio a Dethol

Mae'r isod yn amlinelliad o'r camau recriwtio a dethol a gymerir. Rhaid i'r ymgeiswyr lwyddo ymhob cam er mwyn mynd ymlaen i'r cam nesaf.

Camau	Gwybodaeth a dyddiadau allweddol
Cam 1 – Cofrestru	**Cofrestru'n agor:** 12:00 ddydd Gwener 22 Ebrill 2022 **Cofrestru'n cau:** 12:00 ddydd Mawrth 26 Ebrill 2022 • Cwblhau eich cais ar-lein - bydd dolen ar gael ar y dudalen swyddi pan fydd y broses gofrestru'n agor • Bydd eich cais yn cael ei adolygu a'i wirio ar gyfer cymhwysedd • Dim ond ceisiadau a gyflwynir drwy'r porth ar-lein fydd yn cael eu derbyn
Cam 2 – Asesiadau Ar-lein	• Cewch eich gwahodd drwy e-bost i wneud dau asesiad ar-lein: - Holiadur Arddulliau Ymddygiadol - Prawf Crebwyll mewn Sefyllfaoedd **I'w cwblhau rhwng** 29 Ebrill 2022 a 4 Mai 2022
Cam 3 – Profion Gallu Ysgrifenedig	• Cewch eich gwahodd i fynychu profion Gallu Ysgrifenedig Cenedlaethol ar gyfer Dethol Diffoddwyr Tân • Bydd hyn yn cymryd tua 3 awr, a bydd yn cynnwys y profion rhesymu rhifyddol, rhesymu mecanyddol a deall gwybodaeth **I'w cwblhau rhwng** 23 Mai 2022 a 1 Mehefin 2022
Cam 4 – Profion Gallu Corfforol	• Cewch eich gwahodd i fynychu'r profion Gallu Corfforol Cenedlaethol ar gyfer Dethol Diffoddwyr Tân. Mae mwy o wybodaeth am y profion ar gael yn y llyfryn gwybodaeth am yr Asesiadau Ymarferol **I'w cwblhau rhwng** 13 Mehefin 2022 a 22 Mehefin 2022
Cam 5 – Cyfweliad	• Cewch eich gwahodd i ddod i gyfweliad drwy blatfform ar-lein • Gall ymgeiswyr ddewis cael y cyfweliad naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg, fel sydd orau ganddynt **I'w cael ei gynnal rhwng** 4 Gorffennaf 2022 a 13 Gorffennaf 2022
Cam 6 – Gwiriadau Meddygol a Chyn-gyflogaeth	• Os byddwch chi'n llwyddo i gwblhau pob cam o'r broses recriwtio, bydd yr ymgeiswyr a gaiff eu dethol yn cael eu gwahodd i ddod am asesiad meddygol a ffitrwydd • Caiff gwiriadau cyn-gyflogaeth, gan gynnwys gwiriad DBS a geirdaon eu cwblhau hefyd **I'w cwblhau erbyn** 10 Awst 2022
Cam 7 – Penodi	• Os ydych chi'n llwyddiannus ymhob cam ac yn cael ei dethol ar gyfer swydd sydd ar gael, bydd cynnig amodol o benodiad yn cael ei gadarnhau **Dyddiad dechrau a ragwelir:** Medi 2022 (dyddiad i'w gadarnhau) • Os ydych chi'n llwyddiannus ymhob cam o'r broses recriwtio ond ddim yn cael eich dethol ar gyfer swydd, mae'n bosibl y bydd eich manylion yn cael eu cadw am gyfnod o amser rhag ofn y bydd angen gwneud rhagor o benodiadau (gwneir hyn yn ôl disgresiwn y Gwasanaeth a does dim sicrwydd y byddwn yn cysylltu â chi).

Dalier Sylw: Nid yw'r dyddiadau hyn wedi cael eu cadarnhau ac mae'n bosibl y byddant yn newid yn ôl yr angen i gwrdd gydag anghenion gweithredol